


NEWYDDLLEN

DEMOGRAFFEG

Llywodraeth Cymru, Medi 2018



2016 – 2017

AMCANGYFRIFON O'R BOBLOGAETH AR GYFER Y DEYRNAS UNEDIG, CYMRU A LLOEGR, YR ALBAN A GOGLEDD IWERDDON: CANOL-2017

Cafodd [amcangyfrifon canol blwyddyn 2017](#) o boblogaeth gwledydd y DU eu cyhoeddi ym mis Mehefin gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS).

Yr amcangyfrif canol-blwyddyn o boblogaeth Cymru yn 2017 oedd 3,125,000; cynnydd o 0.4 y cant ar amcangyfrif 2016. Amcangyfrifwyd bod nifer y bobl sy'n byw yng Nghymru ac sy'n 65 oed a throsodd (643,000) yn uwch na nifer y plant rhwng 0 a 15 oed (559,000).

Amcangyfrif canol-blwyddyn 2017 o boblogaeth y DU oedd 66,040,229; sy'n gynydd o 0.6 y cant o'i gymharu ag amcangyfrif canol 2016 (dyma'r gyfradd dwf arafaf ers canol 2004).

Mae lleihad mewn mudo rhyngwladol net yng nghanol 2017 wedi effeithio ar gyfradd y twf mewn poblogaeth mewn rhai mannau mwy nag eraill, ac mae cyfradd dwf Lloegr wedi lleihau mwy na chyfraddau gwledydd eraill y DU (i 0.64%) ac mae cyfradd Llundain bron wedi haneru i 0.63%.

Mae [Data](#) ar gael yn ôl yr ardal weinyddol, oedran, rhyw ac elfennau newid yn y boblogaeth, gan gynnwys mudo mewnol.



AMCANGYFRIFON SIARADWYR CYMRAEG O AROLWG BLYNYDDOL O'R BOBLOGAETH

Cyhoeddir amcangyfrifon o siaradwyr Cymraeg o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth bob tri mis.

Cyhoeddir y data ar [StatsCymru](#) ac mae ar gael yn ôl awdurdod lleol a chyfnod amser.

Mae'r data diweddaraf, a gyhoeddwyd ddydd Iau 20 Medi, yn amcangyfrif bod 874,700 o siaradwyr Cymraeg tair oed a throsodd yng Nghymru, tua 29.3 y cant o'r boblogaeth. Mae hyn ym amrywio o 76.4 y cant yng Ngwynedd i 17.4 y cant yn Blaenau Gwent a Pen-y-bont ar Ogwr.

Fodd bynnag, mae'r cyfrifiad yn parhau i fod y ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae rhagor o ystadegau am y Gymraeg ar gael ar [StatsCymru](#).

Bydd yr amcangyfrifon nesaf o Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn cael eu cyhoeddi fis Ionawr.


AROLWG CENEDLAETHOL CYMRU, 2017-18

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys dros 11,000 o bobl y flwyddyn. Mae'n rhedeg drwy'r flwyddyn, ledled Cymru gyfan. Mae'r arolwg yn ymdrin â materion amrywiol iawn sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol.

Cafodd canlyniadau [Arolwg Cenedlaethol](#) 2017-18 eu cyhoeddi ar 20 Mehefin 2018.

Dengys y prif ganlyniadau ar gyfer y Gymraeg fod 19 y cant o oedolion 16 oed a throsodd wedi nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Dywedodd 11 y cant eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Dywedodd 12 y cant eu bod yn gallu siarad mwy nag ychydig o eiriau yn y Gymraeg a'u bod yn siarad yr iaith bob dydd.

Caiff diweddariad pellach a fydd yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg ei gyhoeddi ar 10 Hydref 2018. Bydd yn canolbwyntio ar agweddau pobl tuag at y Gymraeg a'u hyder wrth siarad yr iaith.



MUDO RHYNGWLADOL HIRDYMOR

Ym mis Awst cyhoeddodd ONS [Adroddiad Chwarterol ar Ystadegau Mudo](#). Mae'r gyfres hon o ystadegau yn dwyn ynghyd ystadegau ynghylch mudo a gaiff eu cyhoeddi gan y Swyddfa Gartref, yr Adran Gwaith a Phensiynau ac

Mae amcangyfrifon yr [Arolwg Teithwyr Rhyngwladol](#) ar gyfer yr hirdymor (hynny yw, dros 12 mis) yn dangos bod 5,000 o fewnfudwyr o'r UE ac 11,000 o wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE yn 2016; a bod 1,000 o allfudwyr i'r UE a 2,000 o allfudwyr i wledydd nad ydynt yn rhan o'r UE.



AMCANGYFRIFON YNGHYLCH AELWYDYDD YNG NGHYMRU: CANOL 2017

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi'r amcangyfrifon ynghylch aelwydydd yng Nghymru ar gyfer canol 2017 ddydd Iau 28 Medi

Cysylltu

Ffôn: 0300 025 0373 E-bost: ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru